Cynllun Tirwedd Coedwig Genedlaethol i Gymru Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) 2025/27 – Dyfarniadau a gymeradwywyd

Partneriaeth Natur Leol	Enw'r prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Coridor Glannau Afon ar hyd Afon Crai	Bydd y prosiect yn gweithio gyda chwe pherchennog tir o fewn dalgylch canol Crai i greu cadwyn o goetiroedd, lleiniau cysgodi a chloddiau i wella bioamrywiaeth, fel mudo ystlumod o fewn y dalgylch.	£247,592.65
Sir Gaerfyrddin	Prosiect Coetiroedd Llandeilo	Gwella'r mynediad i ymwelwyr; ymgysylltu â phobl newydd' creu cynefinoedd coetir newydd; a gwella cynefinoedd a chynhyrchiant economaidd ar dri safle coetir o gwmpas Llandeilo - Parc Dinefwr; Coed y Castell a Phlanhigfa Hen Ysgol Tregib.	£157,600.67
Parc Cenedlaethol Eryri	Coetiroedd Mawddach: Stiwardiaeth gynaliadwy yn nalgylch y Mawddach	Menter adfer coetir cydweithredol yn nalgylch y Mawddach a fydd yn gwella bioamrywiaeth, mynediad ac ymgysylltiad cymunedol drwy gynllunio integredig, rhannu data, gweithredu gan wirfoddolwyr a rheoli tir cynaliadwy ar draws 1,686 o hectarau.	£235,016.86
Powys	Llyn Efyrnwy - Yr ochr ogleddol o Ystâd Llyn Efyrnwy	Cyfuno adfer cynefinoedd â mynediad cynhwysol a grymuso cymunedol: Sefydlu creadigaeth coetir gwlyb brodorol. Sefydlu ac ehangu coetir. Plannu coedwrychau a choed ar ymyl caeau. Rheoli strwythur y coetir. Mynediad a chyfieithu. Cymorth ar gyfer gwirfoddolwyr, sgiliau a phlanhigfa. Dysgu ac ymgysylltu.	£250,000.00
Abertawe	Cysylltu Coetiroedd Cymunedol Abertawe	Gwella dau safle coetir yn Abertawe drwy welliannau wedi'u targedu a fydd yn agor y mynediad, diogelu bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol ac yn gwahodd cymunedau i gysylltu â natur a dysgu trwy brofiadau awyr agored ystyrlon.	£218,456.00
Powys	Mes Eginol	Adeiladu dyfodol o goetiroedd hygyrch cysylltiedig, lle gall cymunedau ddysgu a mwynhau wrth gysylltu â byd natur a'i gefnogi.	£172,375.00

Ceredigion	Rhwydwaith Coedwigoedd Cenedlaethol Biosffer Dyfi	Ehangu ein prosiect peilot ar raddfa dirwedd, gan ehangu'r gwaith o adfer coetiroedd ac ymgysylltu â'r gymuned a chefnogi'r ymdrechion i greu rhwydwaith Coedwigoedd Cenedlaethol Biosffer Dyfi, gan ddod â buddion Coedwigoedd Cenedlaethol i holl Fiosffer Dyfi.	£249,987.01
Sir Benfro	Coetiroedd gogledd Sir Benfro a'r Goedwig Fawr	Gwella hygyrchedd, rheolaeth a dealltwriaeth o safleoedd coetir pwysig, drwy welliannau cyfalaf i SoDdGA, ACA a safleoedd sy'n gysylltiedig â'r Goedwig Genedlaethol. Cael grwpiau amrywiol i ddeall treftadaeth, ecoleg a chrefft coedwigoedd.	£293,886.12
Sir Benfro	Prosiect Coetiroedd Blaenddyfroedd Cleddau	Prosiect gwella a monitro coetir a fydd yn gwella ansawdd pedwar safle o fewn blaenddyfroedd Cleddau, ac yn cael buddion canlyniadol ar y dalgylch yn gyffredinol a chymunedau lleol.	£125,555.00
Castell-nedd Port Talbot	Cysylltiadau Coetir Castell-nedd Port Talbot	Gwella tri choetir yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gyfer bywyd gwyllt a'r gymuned drwy reolaeth well, mwy o fynediad, ymgysylltiad â grwpiau, digwyddiadau, Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd, camau ymarferol a chreu hybiau coetir cynhwysol, llawn bywyd.	£248,811.20
Wrecsam	Hygyrchedd i Bawb	Nod Partneriaeth Goedwig Wrecsam yw gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i greu tirwedd gysylltiedig lle y bydd coed, hen a newydd, yn ganolog i Wrecsam. Bydd y prosiect yn gwella llwybrau mynediad i bob defnyddiwr ac yn plannu coed, creu pwll dŵr ac yn cyflwyno rhaglenni ymgysylltu i gefnogi'r weledigaeth hon.	£201,360.00
Blaenau Gwent	Cysylltu Tirweddau - Coetiroedd	Nod y prosiect yw cyflawni agweddau amrywiol ar reoli coetiroedd ar draws nifer o safleoedd drwy gydol Blaenau Gwent, gan gynnal ymgysylltiad cryf â'r gymuned, uwchsgilio a chyflwyno rhaglen addysg.	£232,094.00